| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **23 Chwefror 2023** |
| **Teitl :** | **Cynllun Gweithredu ar sail Ymgynghoriad y Pwyllgor Safonau gyda detholiad o Glercod Cynghorau Cymuned** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Cymeradwyo'r Cynllun** |

**1. Cefndir**

1.1 Gofynnwyd i ni baratoi cynllun gweithredu i gyfarch y materion a godwyd gan yr Adroddiad gan y Cyn-gadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol ar eu hymgynghoriad gyda detholiad o glercod ynglŷn â'r fframwaith foesegol.

1.2 Daeth sawl mater i'r amlwg sydd, fel y trafodwyd eisoes, y tu hwnt i swyddogaeth y pwyllgor hwn er yn gymorth i ddeall y cyd-destun ehangach. (Mae un o'r materion yma sef trafferthion i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ar faterion yn gyffredinol wedi ei fwydo i mewn i ddarn o waith ehangach corfforaethol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.)

1.3 Gan ganolbwyntion felly at faterion sydd o fewn cylch gorchwyl Pwyllgor, yr her yw sut y gellir cyflawni'r swyddogaeth yn y modd mwyaf effeithiol o fewn y cyfyngiadau ymarferol.

**2. Y Cynllun**

2.1 Y pwynt cychwyn o hyd yw dyletswyddau statudol y Pwyllgor. Yn y cyd-destun yma mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 (adran 54) yn dynodi'r swyddogaeth gyffredinol, ymysg eraill, i:

*"gynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod"*

a hefyd y swyddogaeth benodol:

*" cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r awdurdod ar faterion sy'n ymwneud â chod ymddygiad yr awdurdod"*

2.2 Mae rôl y clerc eisoes wedi ei adnabod fel un sy'n allweddol i gynorthwyo cynnal safonau o fewn cynghorau cymuned. Serch hynny rhaid cadw mewn cof mai dyletswydd i ddarparu hyfforddiant i'r aelodau sydd gan y Pwyllgor, ac na ellir ei ddirprwyo.

2.3 Fel y mae aelodau'n ymwybodol bydd yr Ombwdsmon wrth ymchwilio i gŵyn yn gofyn a yw'r aelod wedi mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ai peidio. Mae adroddiad yr Is-

gadeirydd ar y Fforwm Genedlaethol sydd gerbron y pwyllgor heddiw, yn cyfeirio at sylwadau'r Ombwdsmon bod methiant i fynychu hyfforddiant safonau yn nodwedd sy'n codi dro ar ôl tro. Mae hyn yn tanlinellu felly pwysigrwydd sicrhau bod hyfforddiant ar gael i aelodau.

2.4 Yn y gorffennol gweithredwyd y swyddogaeth yma drwy gynnal sesiynau hyfforddiant gyda'r nos mewn lleoliadau amrywiol ar draws y sir. Roedd hyn yn digwydd unwaith ym mhob tymor cyngor fel arfer a teg dweud mai nifer weddol fychan o aelodau unigol oedd yn mynychu gyda thua hanner y cynghorau yn cael eu cynrychioli fel arfer. Cyn y pandemig sefydlwyd trefn lle gallai cyngor cymuned (ar y cyd gyda chynghorau eraill os yn bosib) wahodd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd i gyflwyno sesiwn hyfforddiant, gyda'r cyngor yn gyfrifol am wneud y trefniadau. Cynhaliwyd un sesiwn peilot o dan y drefn yma gyda Chyngor Tref Tywyn.

2.5 Erbyn hyn mae'r gallu i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol, yn ei gwneud yn bosib cynnal sesiynau hyfforddiant mewn modd sy'n fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r gallu i'w recordio yn golygu y gall cynghorwyr gael mynediad iddynt ar unrhyw adeg heb fod yn ddibynnol ar ei gallu i fynychu sesiwn benodol.

2.6 Yn ogystal â hyn mae gan y Pwyllgor Safonau dudalen ar Wefan Cyngor Gwynedd. Gellir datblygu'r dudalen hon drwy osod mwy o ddogfennau a chanllawiau perthnasol arni ynghyd â dolenni i wefannau defnyddiol eraill. Byddai hyn yn creu adnodd i glercod ac aelodau cynghorau cymuned.

2.7 Yn olaf, mae gan glercod fynediad i gyngor ar faterion penodol drwy gysylltu gyda'r Swyddog Monitro neu ei Ddirprwy a bydd hynny wrth gwrs yn parhau.

2.8 Awgrymir felly bod 3 elfen i'r gefnogaeth gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad:

**1. Cyngor ar faterion penodol.**

Parhau i gysylltu gyda'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.

**2. Gwefan Cyngor Gwynedd**.

Tudalen Pwyllgor Safonau i gynnwys gwybodaeth a chanllawiau yn ogystal â dolenni i wefannau eraill defnyddiol. Byddai hyn yn cynnwys dogfennau a baratowyd gennym (e.e. taflen '*Oes gen i fuddiant?*' sy'n rhoi arweiniad syml ar ddatgan buddiant) fel eu bod ar gael i aelodau cynghorau cymuned hefyd o hyn ymlaen.

Gweithredu – Mawrth 2023 (parhau i ddiweddaru yn ôl yr angen)

**3.Hyfforddiant**

Cynnal sesiwn hyfforddiant rhithiol ar ffurf 'webinar'. Bydd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad ar y Cod Ymddygiad ac yna'r cyfle i ofyn cwestiynau i'r cyflwynwyr. Byddai gwahoddiad i aelodau a chlercod i fynychu. Datblygwyd hyfforddiant ar gyfer sesiwn peilot y cyfeirir ato uchod felly ni fyddai angen llunio sesiwn o'r newydd. Serch hynny mae'r ymgynghoriad gyda'r clercod wedi adnabod elfennau o'r hyfforddiant fyddai angen eu pwysleisio neu eu trafod mewn mwy o fanylder. Y bwriad fyddai recordio'r sesiwn fel ei bod ar gael ar wefan y Cyngor i sicrhau ei fod ar gael i bawb ar unrhyw adeg. Byddai'n caniatáu i'r cynghorau cymuned cael ei ddangos mewn i'r aelodau mewn cyfarfod o'r cyngor pe dymunent.

<u>Gweithredu</u> – Gwanwyn/Haf 2023

**3. Argymhelliad**

3.1 Cymeradwyo'r cynllun uchod